***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 29

# Gorchymyn Deddf Addysg (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Arbed a Throsiannol) 2015

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 16 Ionawr 2015**

**2.** Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2014 ddod i rym yw 16 Ionawr 2015—

(a) adran 2 (Cyngor y Gweithlu Addysg) i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau neu orchmynion o dan Ddeddf 2014;

(b) adran 5 (y pŵer i ychwanegu swyddogaethau);

(c) adran 9(1) a (3) (cofrestr) i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau neu orchmynion o dan Ddeddf 2014;

(d) adran 10 (cymhwystra ar gyfer cofrestru);

(e) adran 12 (ffioedd cofrestru);

(f) adran 13 (cofrestru: darpariaeth bellach);

(g) adran 14 (athrawon ysgol a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion) i'r graddau y mae'n gymwys i athrawon ysgol;

(h) adran 15 (athrawon addysg bellach);

(i) adran 17 (gofyniad i ymgymryd â chyfnod sefydlu);

(j) adran 18 (safonau er mwyn asesu'r cyfnod sefydlu) i'r graddau y mae'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau o dan adran 17 o Ddeddf 2014;

(k) adran 19 (apelau yn erbyn penderfyniadau sefydlu) i'r graddau y mae'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau;

(l) adran 21 (sefydlu: dehongli);

(m) adran 24 (cod ymddygiad ac ymarfer) i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau;

(n) adran 25 (cod ymddygiad ac ymarfer: darpariaeth bellach);

(o) adran 26 (swyddogaethau disgyblu);

(p) adran 27 (swyddogaethau disgyblu: dehongli);

(q) adran 28 (swyddogaethau disgyblu: darpariaeth bellach);

(r) adran 29 (gorchmynion cofrestru amodol) i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau;

(s) adran 30 (gorchmynion atal dros dro) i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau;

(t) adran 31 (gorchmynion gwahardd) i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau;

(u) adran 33 (y Cyngor i gynnal cofnodion ynghylch personau penodol);

(v) adran 35 (rhoi gwybodaeth: y Cyngor);

(w) adran 36 (rhoi gwybodaeth: cyflogwyr);

(x) adran 37 (rhoi gwybodaeth: asiantwyr a chontractwyr);

(y) adran 41 (dehongli Rhan 2);

(z) rhes gyntaf a thrydedd res llinell Tabl 1 ym mharagraff 1 a pharagraff 3 o Atodlen 2 (categorïau cofrestru), ac

(aa) Atodlen 4 (mynegai o eiriau ac ymadroddion wedi eu diffinio).